# Chwarae Cymru

ADRODDIAD EFFAITH

2015 - 2016



# Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n rhaid cyfaddef bod gennyf deimladau cymysg wrth imi ysgrifennu'r cyflwyniad yma ar gyfer Adroddiad Effaith Chwarae Cymru am y flwyddyn ddiwethaf. Nid am waith Chwarae Cymru, fu'n wych, ond am amgylchiadau cyflawni'r gwaith yma.

Fel Cadeirydd Chwarae Cymru, rwy'n hynod o falch o'r gorchestion y darllenwch amdanynt yn yr Adroddiad, yn falch o sgiliau ac ymroddiad y staff sy'n gyfrifol amdanynt, ac yn falch o'r gefnogaeth a roddodd y Bwrdd Ymddiriedolwyr iddynt. Rwy'n ddiolchgar am y ganmoliaeth lafar a dderbyniom am yr hyn yr ydym yn ei wneud gan y naill Weinidog o Lywodraeth Cymru ar ôl y llall, eu gweision sifil a'u hymgynghorwyr arbennig. Rydym i gyd wedi ein calonogi gan flwyddyn arall ble cafodd Chwarae Cymru ei ystyried fel esiampl i'w dilyn gan dimau eraill yn y DU ac o amgylch y byd.

Ond, ymysg yr holl lwyddiant yma, mae rhaid imi nodi eto y cafodd ei sicrhau drwy ymdrech fawr ac yn nannedd ansefydlogrwydd ariannol parhaus. Rwy'n gwneud hyn yn betrus, wedi imi fod mor feirniadol o sefydliadau eraill sy'n cwyno ynghylch bod yn wasanaeth Sinderela. Mae nifer o grwpiau o blant a theuluoedd difreintiedig sydd ddim hyd yn oed yn gallu cael i mewn i'r gegin heb sôn am fynd i'r ddawns!

Ond erys y ffaith na ellir parhau i gyflawni'r swmp gwaith y gall Chwarae Cymru ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru a'i phobl, ar yr adnoddau presennol. A hyn er bod yr Ymddiriedolwyr wedi caniatáu i'r elusen dynnu ar ei hadnoddau wrth gefn, er bod y staff wedi cytuno i leihau eu nifer a'u horiau, ac addewidion swyddogion i feddwl eto am ariannu. 'Dyw addewidion o fawr werth os nad ydynt yn arwain at arian sychion. Unwaith eto, y plant sydd wrth galon ein gwaith fydd yn dioddef fwyaf.

Rwyf wedi egluro mewn Adroddiadau blaenorol yn union pa mor allweddol yw'r rhyddid i chwarae ar gyfer datblygiad iach plant a phobl ifanc. Mae'r rhyddid hwnnw'n cael ei fygwth fwyfwy yn y byd cyfoes, cystadleuol sydd ohoni, ble y caiff llwyddiant ei fesur yn ôl cadw eich trwyn ar y maen academaidd a ble mae rhieni'n anfodlon i adael i'w plant wynebu risg o unrhyw fath. Ac, fel arfer, y plant mwyaf difreintiedig sydd yn yr amgylchiadau mwyaf andwyol fydd yn colli allan fwyaf.

Allwn ni ddim addo reid mewn coets aur na Thywysog Hawddgar ar ddiwedd y daith ar gyfer yr holl blant hynny a'u teuluoedd. All Chwarae Cymru fyth fod yn Ddewines Garedig, yn chwifio hudlath dros fywyd i wneud popeth yn hapus am byth. Ond rydym wedi bod, rydym yn dal i fod ac fe fyddwn yn parhau i fod yn fudiad ymarferol, di-lol sydd wedi ymrwymo i sicrhau y caiff holl blant Cymru'r cyfleoedd i chwarae y maent eu hangen ac y maent yn eu haeddu. Cyn belled â'n bod yn derbyn yr adnoddau sy'n angenrheidiol i wneud hynny.



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

**www.chwaraecymru.org.uk**

# Cynnwys


2015 - 2016 yn gryno 4

Am Chwarae Cymru 5

Cyflawniadau
- Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol 6
- Ymgysylltu 7
- Cyhoeddiadau 8
- Gweithwyr proffesiynol hyddysg 10
- Ymholiadau gan y cyhoedd 12
- Cydweithredu'n lleol 12
- Aelodaeth 15
- Partneriaid 16

Adolygiad ariannol – crynodeb 17

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2016 – 2017 18

Cyflawniadau: 1998 - 2015 20

Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru 22

Tîm Chwarae Cymru 22




© New Model Army Photography

# 2015 - 2016 yn gryno

**58,000**
ymweliad i'r wefan

**1000**
o ymholiadau gan y cyhoedd

**102**
aelod Chwarae Cymru

**400+**
wedi elwa o gyfleoedd DPP

**"MAHPS"**
datblygwyd y cymhwyster lefel 3 Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod y Gwyliau

**Diwrnod Chwarae y Du**

**Chwaraeodd 100,000 o blant y tu allan**

Cofrestrwydd 200 o ddigwyddiadau

**22**
awdurdod lleol wedi eu cefnogi i gwblhau Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2016

**2500**
o dderbynwyr sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi derbyn newyddion a gwybodaeth yn rheolaidd

# Am Chwarae Cymru

## Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble y gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pob un sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer, chwarae plant fel y bydd Cymru, un dydd, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ers mis Hydref 2014 (hyd fis Mawrth 2016), mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Nod cyffredinol y cynllun hwn yw cyflawni potensial cyfleoedd chwarae i gyfrannu tuag at les tymor hir plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cyfrannu at weithrediad llwyddiannus Adrannau 10 ac 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Rydym yn gweithio i sicrhau bod chwarae plant yn cael ei integreiddio'n effeithlon ag amcanion polisi eraill, yn cynnwys trechu tlodi a'r nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein cynllun gweithredu'n ymateb i dystiolaeth gynyddol ynghylch pwysigrwydd chwarae o ran ymdeimlad plant o'u hunain, eu gallu a'r amgylchedd o'u cwmpas.



# Crynodeb o gyflawniadau 2015 - 2016

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gefnogi gweithrediad y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.**

**Mae Chwarae Cymru wedi:**

- Cefnogi awdurdodau lleol i bennu ffyrdd priodol i fynd i'r afael â chwblhau Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2016
- Casglu enghreifftiau o astudiaethau achos / arfer da oddi wrth Rwydwaith Chwarae Strategol Cymru a swyddogion arweiniol Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol a'u cyhoeddi ar ein gwefan
- Adolygu adroddiadau cynnydd Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol a ddarparwyd gan Llywodraeth Cymru
- Cysylltu a chwrdd ag awdurdodau lleol sydd heb swyddogion chwarae i gynnig cymorth gyda'r dyletswyddau Digonolrwydd Chwarae
- Trosglwyddo naw cyfarfod rhanbarthol ar gyfer swyddogion arweiniol Digonolrwydd Chwarae gan gynnig cefnogaeth a chyfleoedd rhwydweithio er mwyn eu galluogi i gydymffurfio â'u dyletswyddau o ran digonolrwydd chwarae
- Bod yn brif awdur pennod chwarae Adroddiad Grŵp Monitro CCUHP Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Cyfrannu at gerdyn cofnodi Plant Egnïol Iach (AHK) Cymru – cychwyn gweithio gyda phartneriaid i gasglu data er mwyn ychwanegu at gyfraniad cyntaf erioed Cymru i 'Fatrics Byd-eang Plant Egnïol Iach' ar gyfer 2016
- Cydlynu pedwar cyfarfod o PETC Cymru er mwyn darparu cysylltiad strategol pwysig rhwng SkillsActive, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr gwaith chwarae
- Cyfrannu at Symposiwm Chwarae'r Pedair Gwlad – rhannu gyda'r gwledydd eraill y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

*"Fe ddysgais gymaint trwy'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Chwarae Cymru: y cyfarfodydd rhwydwaith, cynadleddau, papurau ac adnoddau ar y wefan. Rydych hefyd wedi rhoi'r hyder imi arwain a siapio'r modd y caiff chwarae ei drosglwyddo ar draws yr awdurdod lleol. Dydw i ddim yn credu y gallwn fod wedi ei wneud heb y gefnogaeth yna."*
**Cyn-hwylusydd Plant a Phobl Ifainc**

*"Rwy'n awyddus i gyfrannu mewn unrhyw fodd o gwbl at waith gwych Chwarae Cymru, fu'n fodel effaith cadarnhaol ers cymaint o flynyddoedd."*
**Cyfarwyddwr – Coleg y Gwyddorau Naturiol**

*"Yn dilyn gwrando arnoch yn siarad mewn cynhadledd chwarae, rwyf wedi addasu arbenigedd un o aelodau fy nhîm sydd bellach yn gyfrifol am y blynyddoedd cynnar a chwarae, gan ein bod yn ymwybodol o effaith chwarae mewn sefydliadau addysg."*
**Prif Seicolegydd Addysg**



**29,000 DEFNYDDIWR**

**58,000 YMWELIAD**

# Ymgysylltu

## Gwefan

Mae ein gwefan wrth galon Gwasanaeth Gwybodaeth Chwarae Cymru. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth berthnasol, amserol gan ddenu, rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016:


- 58,000 ymweliad
- 29,000 defnyddiwr
- 136,000 ymweliad a thudalennau

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru 2016

Fyddwch chi'n argymell ein gwefan i eraill?

**Byddaf** - 94%

**Na fyddaf** - 6%



### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru 2016

Sut mae cefnogaeth Chwarae Cymru wedi cyfrannu at eich gallu chi / gallu eich sefydliad i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer chwarae plant?

**TRI ATEB UCHAF**

- Derbyn y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil **91%**
- Cyrchu deunyddiau ac adnoddau trwy gyhoeddiadau Chwarae Cymru **60%**
- Gwell ymarfer gwaith chwarae yn ein lleoliad **40%**

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r niferoedd sy'n dilyn cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Chwarae Cymru'n tyfu'n ddyddiol ac maent yn denu mwy o gyfranogaeth o blith cynulleidfa amrywiol, eang yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Facebook**
1093 hoffi
Cynnydd o 85%

**Twitter**
3,727 o ddilynwyr
Cynnydd o 30%

## Y diweddaraf drwy e-bost

Rydym yn sicrhau bod ein cefnogwyr, oddeutu 2,500 o dderbynwyr sydd â diddordeb uniongyrchol mewn chwarae plant, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf e-byst sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth gyfredol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau sydd ar y gweill
- Y newyddion diweddaraf
- Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru
- Ymgynghoriadau
- Gwybodaeth polisi

# Cyhoeddiadau




**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu amrywiaeth o gyhoeddiadau i gynorthwyo i hysbysu'r rhai sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb am chwarae plant.**

### *Maniffesto ar gyfer chwarae plant yng Nghymru*

Cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016 cynhyrchwyd ein Maniffesto yn galw ar i Lywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu darparu ar gyfer chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol gydnabod bod cael amser, rhyddid a mannau da ar gyfer chwarae o'r pwys mwyaf i bob plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Rhanwyd ein Maniffesto gyda phrif bleidiau gwleidyddol Cymru, ac rydym ni'n gobeithio eu bod wedi ei gael yn ddefnyddiol wrth ddatblygu eu blaenoriaethau a'u hagenda eu hunain ar gyfer Cymru.

### Awgrymiadau anhygoel

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynhyrchu a dosbarthu dwy daflen 'awgrymiadau anhygoel' a dderbyniodd groeso ac fe'i rhanwyd yn helaeth ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol:


***Gwnewch i ffwrdd â'r bubble-wrap*** - cynghorion ar sut y gall oedolion gefnogi angen plant am chwarae'n llawn risg.

***10 awgrym anhygoel ar gyfer codi arian*** - cynghorion ar gyfer codi arian i gefnogi prosiectau chwarae a dynnwyd o *The Venture: A Case Study of an Adventure Playground* gan Yr Athro Fraser Brown.

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

**Fe'i cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a'i ddosbarthu ar ffurf papur ac yn electronig i oddeutu 3,535 o ddarllenwyr.**

**Hydref 2015**
**Dathlu chwarae yng Nghymru**




Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Maniffesto ar gyfer chwarae plant yng Nghymru
- Amser, lle a chaniatâd i chwarae ledled Cymru
- Cefnogi Cymru chwarae-gyfeillgar
- Amser chwarae cyn yr etholiad
- Adolygiad o *Canllaw arfer dda ar gyfer darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar: Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*

**Gwanwyn 2016**
**Chwarae - pwysigrwydd risg**




Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn 'chwarae plant' – Y Fonesig Judith Hackitt, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Chwarae a gwytnwch – Yr Athro Angie Hart
- Chwarae mentrus i bob plentyn – Ally John
- Risg a budd emosiynol
- Astudiaeth: Cyfleoedd chwarae awyr agored yn y DU a'r Almaen

## Taflenni gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyhoeddi nifer o daflenni gwybodaeth gafodd eu dosbarthu'n eang (ar ffurf electronig a phapur mewn amrywiol ddigwyddiadau) a'u lawrlwytho'n helaeth o'n gwefan:




***Pam mae chwarae'n bwysig a'r hyn y gall pob un ohonom ei wneud yn ei gylch*** (mewn partneriaeth â Cadw) - edrych ar bwysigrwydd chwarae y tu allan a dod i gysylltiad â byd natur i bob plentyn a'u teuluoedd, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer cefnogi plant i chwarae'n hyderus y tu allan. Anelir at rieni a gofalwyr.

***Chwarae: iechyd meddwl a lles*** - egluro yn gryno pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad yr ymennydd a iechyd meddwl, yn ogystal â archwilio sut mae chwarae yn cyfrannu at les emosiynol plant a sut mae'n cydgysylltu â'r 'Pum Ffordd at Les'.

***Chwarae mewn ysbytai*** - anelir i ddisgrifio rôl arbenigwr chwarae iechyd o ran cefnogi'r broses chwarae a disgrifio pwysigrwydd darparu cyfleoedd a gofodau chwarae ar gyfer plant mewn ysbytai neu sefyllfaoedd cymunedol, fel hosbisau plant.

***Digonolrwydd chwarae yng Nghymru*** - trosolwg cryno o'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae a'r broses asesu mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ymgymryd. Mae hefyd yn disgrifio nod Llywodraeth Cymru i greu gwlad chwarae-gyfeillgar trwy ddarparu amser, lle a chaniatâd i blant chwarae.

***Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae*** - archwilio sut mae chwarae plant yn cyfrannu at wytnwch ac sut allwn ni fel oedolion gefnogi plant i ddatblygu gwytnwch trwy chwarae. Mae hefyd yn manylu ar sut mae chwarae'n rhan annatod o blentyndod.

***Gwaith chwarae: beth sy'n ei wneud mor arbennig?*** - trosolwg o'r hyn sy'n unigryw am waith chwarae a rôl y gweithiwr chwarae. Mae'n disgrifio sut mae gwaith gweithwyr chwarae yn cysylltu â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn nhermau hwyluso chwarae plant ac effaith y gweithiwr chwarae a'i ymyrraeth ar chwarae plant a'r gofod chwarae.

***Pam gwneud amser i chwarae?*** - cefnogaeth i ddarparwyr chwarae i eiriol dros ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio. Mae'n dangos pam fod chwarae mor bwysig ac mae'n archwilio buddiannau darpariaeth chwarae wedi ei staffio i blant ac i'r gymuned ehangach.

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru 2016

**Sut ydych chi wedi defnyddio cynnwys ein gwefan, cyhoeddiadau neu fwletinau e-bost?**

- I helpu ymarfer gwaith chwarae o ddydd i ddydd **73%**
- I ddadlau achos dros chwarae, gwaith chwarae, datblygu'r gweithlu neu ddarpariaeth chwarae mewn cyfarfod **66%**
- I eiriol dros chwarae gyda'r gymuned ehangach / gweithwyr proffesiynol tu allan i'r gweithlu chwarae **66%**
- I helpu egluro cysyniad i gydweithwyr neu ddysgwyr **60%**
- I hysbysu ymateb i ymgynghoriad **30%**
- I gefnogi cais ariannu **30%**

*"Mae cyngor a gwybodaeth Chwarae Cymru'n allweddol bwysig i mi fel gweithiwr datblygu. Fe fydden i'n ei chael yn anodd iawn i gael yr effaith rwy'n ei gael ar hyn o bryd heb arbenigedd a chefnogaeth Chwarae Cymru."*

*"Alla' i ddim meddwl am fudiad gwell sy'n gweithio i gefnogi hawl plant i chwarae. Mae eich gwybodaeth, a'r modd y caiff ei gyfathrebu, yn wirioneddol wych ac mae'n pennu'r safon i eraill ei dilyn. Daliwch ati! O.N. Pan ymwelais â maes chwarae antur yn Oakland, San Francisco, cefais gip ar eu gwefan. Pan es i ati i chwilio sut yr oedden nhw'n diffinio chwarae ar y wefan, fe gliciais ar y ddolen wnaeth fy arwain … yn ôl i safle Chwarae Cymru!"*

**Ymgynghorydd Chwarae**

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio.'*

Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant; yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleodd i chwarae.**

## Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS)

Yn ystod haf 2015 bu Chwarae Cymru'n cydweithio'n agos â'i bartneriaid Coleg Cymunedol YMCA Cymru, SkillsActive a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs i ddatblygu cymhwyster newydd gan Agored Cymru i ateb y gofynion rheoliadol ar gyfer personau cofrestredig/personau â gofal cynllun chwarae yn ystod y gwyliau.

Bwriedir i Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol sy'n Wobr Lefel 3, gynnig cymhwyster i'r rheini sydd wedi cofrestru fel Personau Cyfrifol cynlluniau chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac sy'n cyflawni'r criteria canlynol:

- Mae rhaid ichi fod dros 19 mlwydd oed
- Mae rhaid ichi feddu ar gymhwyster Lefel 3 perthnasol (neu uwch) mewn gweithio â phlant a phobl ifanc fel addysgu, gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid, gofal plant neu ddatblygu cymunedol
- Mae rhaid ichi fod â phrofiad o weithio mewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio.

Yn ogystal â chefnogi datblygiad proffesiynol staff sy'n rheoli darpariaeth tymor byr i gyflawni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) a gofynion cyfreithiol AGGCC, bydd yn cynnig budd ychwanegol o ddatblygu dealltwriaeth am bwysigrwydd chwarae i ddatblygiad plant a sut y gellir ei hwyluso mewn amrywiol leoliadau.

Mae Gwobr MAHPS yn cynnwys dwy uned lefel 3. Mae Uned 1 yn ymwneud â chymhwyso Egwyddorion Gwaith Chwarae i gynllun chwarae yn ystod y gwyliau tra bod Uned 2 yn canolbwyntio ar y gofynion deddfwriaethol a rheoliadol sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli cynllun chwarae yn ystod y gwyliau. Cynhelir llawer o'r tasgau asesu yn yr ystafell ddosbarth, gyda thasg fyfyrio ysgrifenedig ychwanegol ar ddiwedd pob diwrnod.

Erbyn diwedd y cwrs hwn bydd dysgwyr:

- Yn gallu arwain a rheoli cynllun chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol
- Yn gallu rhoi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith mewn cynlluniau chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol
- Yn cymhwyso i fod yn Berson Cyfrifol cofrestredig gydag AGGCC.

*"Braf cael rhwydweithio gyda phobl o ardaloedd / lleoliadau eraill â gwahanol brofiadau."*

*"Roedd y cwrs yn ddifyr a heriol. Fe roddodd gyfle inni fyfyrio ar ein profiadau personol yn ogystal â phrofiadau amrywiol pobl eraill; yr hyn y mae rhai ohonom wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd a'r hyn oedd yn dda a'r hyn y gallem ei wella. Roedd y tasgau asesu'n berthnasol i'n gwaith, ac roeddent yn gofyn inni ystyried ein rolau wrth reoli ein cynlluniau chwarae dros y gwyliau unigol a sut fyddwn ni'n sicrhau bod plant yn profi'r cyfleoedd chwarae gorau. Roedd yn braf cael ein hysgogi i feddwl."*

* Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru - gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o gynadleddau, seminarau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, gan gynnwys:

- **Ysbryd 2015: pwysigrwydd cymryd risgiau** (Caerdydd) – cafodd 120 o gyfranogwyr eu hysbysu gan brif-areithiau rhyngwladol, ysbrydoledig gan gynnwys Y Fonesig Judith Hackitt, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a chymryd rhan mewn 12 gweithdy ar bynciau'n cynnwys pam fod angen i blant gymryd risg, trawsnewid amser chwarae yn yr ysgol, a chyfleoedd chwarae llawn risg ar gyfer pob plentyn.

  *"Fe wnes i wir fwynhau'r gweithdai a chwrdd â phobl newydd o'r sector chwarae … defnyddiol ac yn ein procio i feddwl."*

- **Fforwm Gweithwyr Chwarae 2015 (Gogledd Cymru)** – fe wnaeth y digwyddiad deuddydd roi cyfle i staff o feysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae rannu arfer dda a dysgu a datblygu sgiliau ymarferol i gefnogi plant yn chwarae. Mynychodd 25 o gyfranogwyr ac roedd ariannu ar gael, yn dilyn cau NEW Play (y gymdeithas chwarae ranbarthol), i gefnogi'r rheini sy'n gweithio yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i fynychu.

  *"Wrth fy modd gyda'r cymysgedd o weithdai ymarferol a theori."*

- **Cynhadledd Bywyd Cartref** – fe weithiom gyda Rhwydwaith Swyddogion Chwarae Gogledd Cymru i gydlynu'r gynhadledd yma. Anelwyd y digwyddiad at wella'r amodau ar gyfer chwarae yn ac o amgylch y cartref a denodd 49 o gyfranogwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn cyd-destun cynnal teuluoedd, datblygu cymunedol, blynyddoedd cynnar a gwaith cymdeithasol.

  *"Cynhadledd wych yr ydw i wedi ei mwynhau'n fawr iawn! Cymysgedd arbennig o weithgareddau wedi eu hamseru a'u trosglwyddo'n rhagorol."*

- **Cynhadledd Digonolrwydd Chwarae** – mewn partneriaeth â Thîm Datblygu Chwarae Wrecsam a Phrifysgol Glyndŵr, fe drefnom Gynhadledd Ymchwil: Tuag at Ddigonolrwydd Chwarae i rannu canfyddiadau o amrywiaeth o waith ymchwil a ddefnyddiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddylanwadu ar y modd y byddai'n diffinio digonolrwydd ar gyfer asesiadau i'r dyfodol, ac i gydymffurfio â'r ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

  *"Addysgiadol iawn ac wedi peri imi feddwl – cyfle gwych i gwrdd ag eraill o wahanol sectorau sydd â diddordeb mewn chwarae a gwaith chwarae."*

- **Cynhadledd Blaenau Gwent** – mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, fe drefnom gynhadledd Blaenau Gwent - Sir Chwarae-gyfeillgar i archwilio sut y gall pawb, y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant, weithio gyda'i gilydd i wneud Blaenau Gwent yn sir sy'n fwy chwarae-gyfeillgar.





## Ymholiadau gan y cyhoedd

Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym yn amcangyfrif inni dderbyn ac ymateb tua 1000 o ymholiadau dros y ffôn a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- Cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- Cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- Dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau lefel 3 yn benodol
- Ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- Cyngor ariannu ar gyfer swyddi gwaith chwarae
- Cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion
- Cyngor ar lain o dir neu ofod chwarae (fel arfer oddi wrth gymdeithasau tai)
- Hysbysebu swyddi, yn arbennig cynlluniau chwarae haf
- Llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu

**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan.**

## Cydweithredu'n lleol

### Achubwyr Lle Gwag

Mae Achubwyr Lle Gwag yn brosiect gaiff ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi tenantiaid pedwar cymdeithas dai yn Ne Cymru i drawsnewid mannau agored yn eu cymunedau. Trwy'r prosiect mae Chwarae Cymru wedi cefnogi grŵp sy'n cael ei arwain gan denantiaid i ddatblygu man chwarae naturiol yn y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr, a agorodd ym mis Chwefror 2016.

*"Fel cymdeithas, mae'r ffordd y byddwn yn ystyried a rhyngweithio gyda'n gofodau awyr agored yn allweddol i'n lles corfforol a meddyliol. Bydd y cyfleoedd i chwarae y byddwn yn eu darparu ar gyfer plant yn effeithio'n sylweddol ar y genhedlaeth nesaf – a'r ddealltwriaeth yma y mae Chwarae Cymru wedi ei roi i ni fel cymdeithas dai. Maent wedi ymgysylltu'n llwyddiannus gydag aelodau'r gymuned a rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt fynnu bod chwarae ar yr agenda."*

**Rachel Morton - Tai Cymoedd i'r Arfordir**

*"Roeddwn i'n awyddus i greu ardal chwarae ddiogel yn Y Felin Wyllt ac fe wnaeth gweithdy chwarae Chwarae Cymru fy ysbrydoli i roi syniad am brosiect at ei gilydd."*

**Sarah Hay - rhiant**

### Ar Agor Bob Awr

Derbyniodd myfyrwyr-wirfoddolwyr ar raglen BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, hyfforddiant Cyflwyniad i Waith Chwarae i'w galluogi i hwyluso sesiynau chwarae mynediad agored wedi eu staffio mewn dwy ysgol yng Nghaerdydd ac un ym Mro Morgannwg. Ariannwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm ac arweiniodd at ddiweddaru ein pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*.

*"Arhosodd llawer o rieni a chefnogi i gynnal y prosiect, gan gefnogi eu plant mwy nag roeddwn i wedi rhagweld. Datblygodd fy rôl wrth i'r prosiect wneud cynnydd, ac wrth i'r plant oedd yn mynychu'r sesiynau chwarae ddod i fy nabod i, a minnau hwythau. Fe wnaethon nhw fy ngwahodd i ymuno â'u chwarae, ac fe ges i gyfle i ymgysylltu yn ogystal â chyflawni rôl arsylwi a chefnogi. Roeddwn i'n teimlo bod y prosiect yn bwysig, gan fod y plant yn gallu chwarae tu allan a llosgi peth o'u hegni ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd. Ar ôl siarad â nifer o rieni, fe wnaethon nhw sôn wrtha i sut roedd ymddygiad eu plant wedi gwella pan oedden nhw'n gallu aros a chwarae am awr ar ôl ysgol. Roedd hefyd yn gyfle i'r rhieni ymlacio a gwylio'u plant yn chwarae, gan wybod eu bod mewn amgylchedd diogel."*

**Myfyriwr gwirfoddol**

### Asesu Risg-Budd

Fe weithiom gyda thîm Datblygu Chwarae Wrecsam, darparwyr gwaith chwarae a Playful Futures i ddatblygu deunyddiau rheoli risg deinamig sy'n canolbwyntio ar strwythurau adeiladu eich hun ac ymddygiadau chwarae cyffredin.

### Asesiad Digonolrwydd Chwarae Merthyr Tudful

Comisiynwyd Chwarae Cymru i gynnal Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2016 ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Gan weithio gyda phartneriaid lleol, fe ddefnyddiom *Becyn Cymorth Asesiad Digonolrwydd Chwarae* Llywodraeth Cymru i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae.

### Diwrnod Chwarae

Mae Diwrnod Chwarae'n ddathliad blynyddol yn y DU o hawl plant i chwarae a gynhelir ar ddydd Mercher cyntaf mis Awst.

Fe'i cydlynir gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Mae Chwarae Cymru'n cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol.

Yn Chwarae Cymru rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru. Bob blwyddyn bydd Diwrnod Chwarae'n denu sylw'r cyfryngau – o bapurau newydd lleol a rhanbarthol i'r teledu a phapurau newydd cenedlaethol.

Yn 2015 cofrestrwyd dros 200 o ddigwyddiadau Diwrnod Chwarae ar draws y DU yn cynnwys oddeutu 100,000 o blant ac oedolion.

# Aelodaeth

Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau. Gofynnir i bob aelod sy'n ymuno, i ymrwymo i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a Pholisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

Yn 2015-2016 roedd gennym 102 o aelodau, yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau tref a chymuned
- Prifysgolion a cholegau
- Cymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol
- Clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, cynlluniau chwarae gwyliau'r ysgol a meithrinfeydd
- Cwmnïau masnachol
- Mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Unigolion fel gweithwyr chwarae, hyfforddwyr gwaith chwarae, athrawon a darlithwyr.

Mae **aelodaeth gyswllt** yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio'r tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru. Ceir cyfyngiadau ar y buddiannau aelodaeth oherwydd ein bod fel elusen wedi ein cofrestru i weithio er budd trigolion Cymru.

Yn 2015-2016 fe wnaeth ein haelodau elwa trwy dderbyn:

- Hysbysiadau ynghylch ymgynghoriadau allweddol a thrwy gyfrannu eu mewnbwn hwy i'n hymatebion
- Gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau ac ymchwil newydd
- E-fwletinau bob yn ail fis i aelodau (460 yn eu derbyn)
- Pris gostyngedig i gyfranogwyr yn ein digwyddiadau
- Prisiau gostyngedig ar ein cyhoeddiadau.



*"Rwy'n hoffi bod yn aelod o Chwarae Cymru oherwydd y gefnogaeth a'r ysbrydoliaeth y mae'n eu cynnig i helpu i alluogi eraill i hyrwyddo ac eiriol dros chwarae. Doeddwn i'n gwybod dim am chwarae o'r blaen, ond mae fy nhaith dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn wych. Mae cwrdd ag aelodau eraill, mynychu Ysbryd, a gweithio gyda nifer o dîm Chwarae Cymru yn yr ardal leol yn fy ysbrydoli bob tro ac rwy'n awchu am fwy o hyd. Mae'r cylchgrawn rheolaidd yn ddiddorol i'w ddarllen bob amser."*
**Arweinydd Ysgol Goedwig**

*"Fel awdur, ymchwilydd ac asesydd, yr hyn yr ydw i'n ei werthfawrogi yw derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bapurau a chyhoeddiadau newydd – sydd wastad wedi eu 'sgwennu'n dda a'u cyfeirnodi'n llawn. Wrth gwrs fe allen i ymweld â'r wefan yn rheolaidd a chwilio gan eich bod chi'n sicrhau bod y rhain ar gael beth bynnag, ond rwy'n credu bod y tâl aelodaeth yn werth yr arian oherwydd fe fyddwch chi'n rhoi gwybod imi pan fo stwff newydd ar gael, a 'does dim rhaid imi chwilio amdano fy hun!"*

*"Mae aelodaeth o Chwarae Cymru'n ein rhoi mewn cysylltiad â gweithwyr chwarae proffesiynol ac mae'n sicrhau nad ydyn ni'n cael ein hynysu nac yn dioddef o ddiffyg gwybodaeth ynghylch y tueddiadau, yr egwyddorion a'r syniadau diweddaraf. Chwarae Cymru yw ein 'Traed ar y Ddaear', ond mae hefyd yn ein hysbrydoli a'n hysgogi."*
**Gweithiwr Proffesiynol Addysg Awyr Agored**

## Aelodaeth ar gael o £10 y flwyddyn!

| | |
|---|---|
| **Unigol** | **£10** |
| **Sefydliadau** (un, neu lai, o aelodau llawn amser o staff) | **£25** |
| **Rhyngwladol** (y tu allan i Gymru) | **£25** |
| **Sefydliadau** (mwy nag un aelod llawn amser o staff) | **£50** |
| **Masnachol / preifat** | **£75** |
| **Awdurdod lleol** | **£100** |

*"I mi, Chwarae Cymru yw llais cenedlaethol y gweithlu gwaith chwarae ar draws y wlad, ond mae'n fwy na dim ond hyn, mae'n fudiad sy'n caniatáu i'n lleisiau gael eu clywed ar draws y DU gyfan ac, yn wir, ar draws y byd. Heb y mudiad yma fe fydden ni'n llais unig mewn byd mawr iawn, a fyddai effaith y gwaith yr ydym yn ei wneud ddim mor bellgyrhaeddol."*

**Swyddog Datblygu Chwarae**



# Partneriaid

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn ystod 2015-2016 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth / cydweithrediad â'r mudiadau canlynol ar brosiectau penodol:

- Cartrefi Cymoedd i'r Arfordir
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)
- Children's Play Policy Forum
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru
- Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir y Fflint
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- International Play Association (IPA)
- International Play Association EWNI (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- Learning through Landscapes
- Play England
- Play Safety Forum
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland
- Playday / Diwrnod Chwarae
- Playful Futures
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Leeds Beckett
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Swydd Gaerloyw
- Prosiect Achubwyr Lle Gwag
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- Sioned Williams Landscape Design
- SkillsActive
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham




# Adolygiad ariannol - crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2016.**

## Cyfanswm incwm £368,869

| | |
|---|---|
| Grantiau | £264,685 |
| Aelodaeth | £ 3,865 |
| Incwm o fuddsoddiadau | £996 |
| Rhoddion | £234 |
| Incwm arall a enillwyd | £61,068 |
| Cynhadledd Ysbryd 2015 | £7,720 |
| Nwyddau | £ 3,612 |
| Hyfforddi'r gweithlu | £19,767 |
| Grant Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm | £6,115 |
| Incwm arall | £807 |



## Cyfanswm gwariant £411,730

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant a datblygu'r gweithlu | £120,215 |
| Datblygiad a darpariaeth chwarae | £ 144,196 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £ 110,655 |
| Rheolaeth | £36,664 |





# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2016 - 2017

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae.**

**Tan fis Hydref 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

**Rydym yn rhagweld y bydd yr ariannu yma'n ein galluogi i ymgymryd â'r canlynol:**

## Strategaeth a pholisi

- Cyfrannu at ddatblygiad strategol lefel uchel o bolisi Llywodraeth Cymru
- Cefnogi gweithredu Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Adolygu cefnogaeth ar gyfer rhwydweithiau proffesiynol a'i fireinio er mwyn cyflawni anghenion y sector orau
- Parhau i weithio trwy'r Play Safety Forum, gyda'r HSE, i leihau canlyniadau nas bwriadwyd camddefnyddio Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Parhau â gwaith polisi er mwyn sicrhau bod mesurau / mentrau eraill y Llywodraeth sy'n effeithio ar fynediad i fannau i chwarae (fel y Bil Trafnidiaeth, Diogelwch Cymunedol, Cynlluniau Gweithredu Gweithgarwch Corfforol) yn ymgorffori dealltwriaeth o hawl plant i chwarae
- Cynnal y lefel presennol o gefnogaeth i SkillsActive a'i waith yng Nghymru
- Cyfrannu at weithredu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae y DU a chynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru, Cynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae
- Chwilio am ariannu cronfa i lanw'r bwlch ariannu gan Lywodraeth Cymru o'n grant blaenorol
- Datblygu strategaeth codi arian

- Cyflwyno ceisiadau am gytundebau bychain
- Ehangu ar drefniadau gweithio llwyddiannus gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau bod darparwyr mynediad agored yn derbyn cefnogaeth effeithlon trwy'r drefn archwilio newydd
- Parhau i weithio gyda'r Children's Play Policy Forum a'r Play Safety Forum i sicrhau agwedd strategol, gydlynol tuag at chwarae ar draws y DU a bod materion sydd heb eu datganoli sy'n effeithio ar chwarae plant, er enghraifft iechyd a diogelwch, yn cynnwys persbectif Cymreig.

## Gwasanaeth Gwybodaeth

- Parhau â'n hymgyrch Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar fel elfen o eiriolaeth genedlaethol dros chwarae trwy hyrwyddo Sylw Cyffredinol 17 ar Erthygl 31 o GCUHP (UNCRC)
- Parhau i ddatblygu ein gwefan a mireinio'r Gwasanaethau Gwybodaeth
- Adolygu ein gallu i gyhoeddi cylchgrawn ar ffurf copi caled ddwywaith y flwyddyn
- Cefnogi aelodaeth o'r trydydd sector ac awdurdodau lleol Cymru
- Datblygu aelodaeth Chwarae Cymru a chynyddu nifer yr aelodau newydd 100%
- Datblygu presenoldeb Chwarae Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol a chynyddu nifer ein dilynwyr 100%
- Parhau i hyrwyddo *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*
- Parhau â'n eiriolaeth leol a chenedlaethol dros chwarae trwy hyrwyddo'r Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o GCUHP

## Datblygu'r gweithlu

- Adolygu datblygiad a throsglwyddiad hyfforddiant a chymwysterau chwarae o safon gyda'r bwriad o sicrhau cynaliadwyedd cymwysterau Lefel 2 a 3 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$); datblygu prosiect a ariennir gan Erasmus+ Ewrop i gyflwyno'r cymhwyster trwy Ewrop gyfan
- Dynodi a hwyluso cynadleddau, seminarau a gweithdai perthnasol i gyd-destun chwarae plant
- Sicrhau mynediad i gyllid Ewropeaidd er mwyn cefnogi trosglwyddiad cymwysterau
- Datblygu strategaeth 10 mlynedd ar gyfer datblygu'r gweithlu chwarae a gwaith chwarae sy'n sicrhau cymwysterau priodol ar gyfer gweithwyr chwarae, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, Cynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, ond sydd hefyd yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer cymwysterau, DPP, hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer y gweithlu chwarae ehangach fel y diffinnir yng nghanllawiau statudol *Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae*.
- Sicrhau defnydd o gyfleodd dysgu cyfunol ac ar-lein ar gyfer trosglwyddo $P^3$ a chymwysterau arfaethedig yn y dyfodol
- Archwilio llwybrau ar gyfer ariannu datblygiad rhaglen hyfforddi sydd wedi ei hanelu at uwch-reolwyr awdurdodau lleol, aelodau etholedig, cyrff statudol eraill a chyfarwyddwyr / prif weithredwyr trydydd sector
- Cyfrannu at adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae, yn cynnwys cynorthwyo gyda'r broses ymgynghori yng Nghymru
- Datblygu aelodaeth a rôl Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Wales) a'i berthynas â PETC's mewn gwledydd eraill
- Sicrhau cytundeb i ddatblygu Gwobr Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP), yn seiliedig ar Wobr $P^3$, fydd yn ateb gofynion rheoleiddiol ar gyfer cynlluniau chwarae dros y gwyliau ond fydd hefyd yn gymhwyster addas er mwyn cynyddu sgiliau: cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr amser cinio, gweithwyr ieuenctid a staff gofal plant. Gweithio gyda Choleg Cymunedol YMCA Cymru ac Agored i ddatblygu'r cymhwyster hwn
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â grŵp llywio'r Fforwm Gweithwyr Chwarae i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfle rhwydweithio / DPP gwerthfawr ar gyfer gweithwyr chwarae yng Nghymru.

**Ceir manylion y targedau uchod yn strategaethau diwygiedig pum mlynedd a 10 mlynedd Chwarae Cymru. Bydd gweithgareddau codi arian eraill yn ein galluogi i barhau i eiriol dros hawl plant i chwarae.**

# Cyflawniadau: 1998 - 2015

**Ers 18 mlynedd mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1 filiwn i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd y byddai hyn yn ariannu am flwyddyn yn unig, parhaodd y grant fel rhan o gronfa Cymorth a thrwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Yn 2014 a 2015, sicrhaodd Llywodraeth Cymru bod ariannu ychwanegol ar gael ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i weithio tuag at sicrhau digonolrwydd chwarae.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gontract tair blynedd i helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant gwerth £13 miliwn y Gronfa Loteri FAWR i gefnogi prosiectau meithrin gallu a chwarae strategol yng Nghymru.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Cefnogodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Polisi Chwarae 2002 – y credwn sydd y cyntaf o'i fath yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer chwarae plant. Caiff Cyfleoedd Chwarae eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol 'i asesu a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, cyn belled a bo hynny'n ymarferol'. Cam arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf a welwyd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Llywodraeth Cymru, a darparwyr chwarae, i ddatblygu'r *Pecyn Cymorth Asesiad Digonolrwydd Chwarae*. Mae'n cefnogi pob awdurdod lleol i gyflawni eu dyletswyddau, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012.
- Trwy ymateb i ymgynghoriadau fe wnaeth ein haelodau helpu i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae'n cael lle amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol yma.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* ac *Yr Hawl Cyntaf – prosesau dymunol*. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi'r bobl hynny sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac maent yn darparu fframwaith ar gyfer asesu ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.
- Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a'r Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwaith Chwarae, yn 2005. Bellach mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n sail ar gyfer y safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.
- Er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau $P^3$ ar lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma fe wnaethom gynhyrchu ddeunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd rydym wedi buddsoddi dros £1.5m yn natblygiad, peilota a throsglwyddo $P^3$.




- Mae diddordeb rhyngwladol yng nghyhoeddiadau Chwarae Cymru a hyfforddiant P³ wedi arwain at weld ein cyhoeddiadau'n cael eu trosi i ieithoedd eraill, yn cynnwys Japaneg.

**Golyga hyn i gyd bod y bobl sy'n gweithio gyda'n plant wedi eu hyfforddi cystal â phosibl.**

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

- Trwy'r wefan a thrwy gynhyrchu e-fwletinau rheolaidd, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, llyfrau a phosteri, mae Chwarae Cymru'n hybu chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei chydnabod yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithiol ar gyfer cyfleu gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pob un sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, Gwobr Hawl i Chwarae yr IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn yma. Arweiniodd hyn at weld Chwarae Cymru'n sefydlu ein hymgyrch Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar.
- Cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant Cymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad y Sylw Cyffredinol.
- Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Phrifysgol Swydd Gaerloyw i gynhyrchu dau adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau dau brosiect ymchwil graddfa fechan. Mae'r cyntaf yn archwilio sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i gyflwyniad y dyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant a'r ail yn ymchwiliad dilynol i edrych yn ôl dros y flwyddyn flaenorol ac ymlaen at gychwyn ail ran y dyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant.

**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn – ychwanegwch eich llais chi er mwyn ein helpu i wneud mwy.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

Caiff ein gwaith ei lywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion.

(fel o fis Mawrth 2016)

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Dr Anne Crowley**

**Brenda Davis**

**Debra Jones**
Plant y Cymoedd

**Malcolm King**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Cymru, Abertawe

**Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)**
Seiciatrydd Ymgynghorol (wedi ymddeol)

**Ben Tawil**
Prifysgol Leeds Beckett

**Keith Towler**

## Mudiadau sy'n Sylwedyddion

**Steve Cushen**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Richard Tobutt**
SkillsActive Cymru

**Catriona Williams OBE**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(ym mis Mawrth 2016)

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwraig-gynorthwyol
(Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth)

**Kathy Muse**
Rheolwraig Swyddfa

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwraig Cyfathrebiadau



**www.chwaraecymru.org.uk**

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru